# THOMAS, SAMPSON (1739 - 1807), un o bregethwyr cynnar y Methodistiaid Calfinaidd yn Sir Benfro.

**Enw:** Sampson Thomas
**Dyddiad geni:** 1739
**Dyddiad marw:** 1807
**Priod:** Margaret Thomas
**Rhiant:** George Thomas
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** un o bregethwyr cynnar y Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Rhiannon Francis Roberts

Dywedir ei fod yn enedigol o Drelech, Sir Gaerfyrddin, ac iddo ddod i Sir Benfro ar ei briodas yn 1773; bedyddiwyd un o'r enw, mab i George Thomas, ym mhlwyf Trelech a'r Betws, 28 Awst 1739. Argyhoeddwyd ef yn 1760; priododd yn 1773, ac aeth i fyw at ei wraig yn agos i Gaerfachell, lle yr oedd achos gan y Methodistiaid; byddai'n arfer mynd i Abergwaun un Sul yn y mis i bregethu. Âi hefyd ar deithiau, e.e. pregethodd yn Llanllyfni (Arfon) yn 1792. Bu ef a'i wraig farw yr un pryd; ceir cofnod am gladdu Sampson Thomas a Margaret Thomas yn Whitchurch, Sir Benfro, 18 Ebrill 1807.

## Awdur

**Rhiannon Francis Roberts**, (1923 - 1990)

## Ffynonellau


*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), ii, 298, 307

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 575

Joseph Evans, *Biographical Dictionary of Ministers and Preachers of the Welsh Calvinistic Methodist Body ... to the close of the year 1850* (1907)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746842


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu